Page

# Tirweddau



Partneriaeth Tirwedd Cors Romney

Dewch o hyd i ysbrydoliaeth ar ffyrdd y gallwch ddefnyddio ein cyllid i helpu i ofalu am dirweddau hardd y DU.

Gan ddefnyddio arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym yn dosbarthu grantiau hyd at £10miliwn i gefnogi prosiectau treftadaeth.

Rydym yn disgwyl i brosiectau llwyddiannus ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu tirweddau a natur y DU.

## Yr hyn a ddisgwyliwn gan brosiectau

Mae'n rhaid i brosiectau tirwedd gyflawni **un neu fwy** o'r gofynion canlynol:

- cadwraeth ar raddfa tirwedd
- cynyddu dealltwriaeth pobl o werth diwylliannol tirweddau a morluniau
- cynefinoedd mwy, gwell, wedi'u cysylltu'n dda ac yn fwy gwydn ar gyfer natur
- ailgysylltu pobl â natur

### Pethau allweddol i'w darllen

- ein canllawiau ar dirweddau a phrosiectau natur
- Canllawiau Cynlluniau Seiliedig ar Ardal

## Ein cyllid strategol ar gyfer tirweddau

Dysgwch fwy am ein mentrau cyllido presennol a blaenorol ar gyfer prosiectau ar raddfa dirwedd.

Expand All accordions

## Cysylltiadau Tirwedd

Ym mis Gorffennaf 2024 gwnaethom gyhoeddi £150 miliwn o ariannu hirdymor ar gyfer cefn gwlad godidog y DU mewn menter newydd, Cysylltiadau Tirwedd, a fydd yn para am ddeng mlynedd. Bydd y fenter flaengar hon yn ariannu prosiectau sy’n rhoi hwb i adferiad byd natur, yn cefnogi ein heconomïau gwledig, ac yn cysylltu mwy o bobl â'r tirweddau a drysorir fwyaf yn y DU.

Cael gwybod mwy am Cysylltiadau Tirwedd.

Expand All accordions

## Partneriaethau Tirwedd, nawr ac yn y dyfodol

Rhwng 2004 a 2017, cefnogodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dros 120 o Bartneriaethau Tirwedd.

Roedd y prosiectau hyn ar raddfa tirwedd yn canolbwyntio ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ardaloedd daearyddol yn gyffredinol rhwng 20 a 200 cilomedr sgwâr.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Parterniaeth tirwedd Belfast Hills
- Parterniaeth Lefelau Byw Gwent
- Y dirwedd carbon ym Manceinion
- Partneriaeth tirwedd Inner Forth
- Partneriaeth tirwedd Cors Romney

Dysgwch fwy am yr hyn a ddysgwyd gennym yn ein gwerthusiad Partneriaethau Tirwedd.



## rdeb hefyd mewn ...



## er da

Drew Bennellick, ein Pennaeth Tir, Môr a Natur, a Harriet Bennett, Swyddog Rheoli Tir prosiect Partneriaeth Tirwedd Chilterns, gydag Andrew Stubbings, o Manor Farm, sef enghraifft o dirwedd gysylltiedig. Ffoto: Oliver Dixon.



## hod tirweddau safon fyd-eang y DU

## Gwerthusiad Partneriaethau Tirwedd